Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhuthun
# Ffordd yr Wyddgrug
# Rhuthun
# Sir Ddinbych
# LL15 1EE

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Rhuthun

Mae Ysgol Rhuthun yn ysgol breswyl ac ysgol ddydd gydaddysgol sy’n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 10 ac 20 oed. Mae’r ysgol wedi’i lleoli ar gyrion Rhuthun, sef tref farchnad fach yn Nyffryn Clwyd, Sir Ddinbych.

Sefydlwyd yr ysgol ym 1284 fel rhan o gastell a garsiwn a adeiladwyd gan Edward I. Fe’i hailsefydlwyd ym 1574 gan gyn-ddisgybl, Gabriel Goodman, Deon Abaty San Steffan ac fe gafodd Siarter Brenhinol gan Elizabeth I fel canolfan rhagoriaeth academaidd yng ngogledd Cymru. Mae’r ysgol yn ymddiriedolaeth elusennol a’i chorff llywodraethol yw’r Cyngor Rheoli.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i Estyn gynnal arolygiad â ffocws, yn ddirybudd, o Ysgol Rhuthun o dan adran 160 Deddf Addysg 2002. Rhoddodd yr arolygiad ffocws arbennig ar safon 3 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, sy’n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion.

Ymwelodd arolygwyr Estyn ac arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â’r ysgol o 18 i 21 Tachwedd 2019. Yn ystod yr ymweliad, casglwyd tystiolaeth o ystod o ffynonellau, yn cynnwys:

- cyfweliadau â staff
- cyfweliadau ag aelodau’r Cyngor Rheoli, yn cynnwys y Cadeirydd
- craffu ar ddogfennau.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae’r ysgol yn gymuned gydlynus sy’n darparu cymorth ac arweiniad buddiol i’w disgyblion. Mae’r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn cynnig help gwerthfawr, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt, drwy’r system tiwtorial pwnc a’r system fugeiliol, i fodloni anghenion unigol disgyblion yn effeithiol.

Mae trefniadau cymorth bugeiliol yr ysgol, ynghyd â’r rhaglen lles personol, cymdeithasol, iechyd a lles economaidd, yn helpu disgyblion i ddatblygu ymdeimlad cryf o gymuned, dathlu amrywiaeth a meithrin gwerthoedd fel gwerthfawrogiad, goddefgarwch a pharch. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel a chadarn a dywedant fod yr ysgol yn ymateb yn dda i unrhyw honiadau o fwlio.

Mae’r polisi diogelu yn briodol ac yn cwmpasu pob un o’r materion allweddol sy’n ofynnol ar gyfer dogfen o’r fath. Mae cyfarwyddiadau i staff yn glir, felly hefyd y cyngor o ran sut i fynd i’r afael â phryderon diogelu.

Mae rôl y person diogelu dynodedig wedi’i hamlinellu’n glir. Mae wedi cyflwyno systemau defnyddiol i adrodd am bryderon diogelu. Y person diogelu dynodedig sy’n arwain yn yr holl faterion diogelu ac eithrio honiadau yn erbyn staff. Mewn amgylchiadau o’r fath, gan yr arweinydd diogelu dynodedig (y pennaeth) y mae’r cyfrifoldeb ac eir i’r afael â honiadau o dan weithdrefnau disgyblu’r ysgol. Mae polisi ar wahân yn ymwneud â honiadau yn erbyn staff yn ymdrin â’r agwedd hon.

Mae’r llawlyfr staff yn cynnwys arweiniad cynhwysfawr i staff sy’n ymdrin â bron pob agwedd berthnasol, os nad pob agwedd, ar fywyd ysgol. Mae’n amlinellu’n glir yr agweddau y mae’r arweiniad yn ymdrin â nhw.

### *Meysydd i’w datblygu*

Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn dioddef o orbryder yn ymwneud yn bennaf â phwysau astudio a mynediad i leoedd mewn prifysgol, er eu bod yn gwybod ble i fynd i gael cymorth. Fodd bynnag, mae gan staff sy’n darparu’r cymorth hwn bryderon ynghylch lles disgyblion unigol.

Nid oes trefniadau addas gan y Cyngor Rheoli i ymgynghori â staff a disgyblion, a chael dealltwriaeth gadarn o agweddau, pryderon a dyheadau staff a disgyblion.

Nid oes gwybodaeth lawn gan holl aelodau’r Cyngor Rheoli am faterion allweddol yn ymwneud â diogelu.

Mae Cyngor Rheoli yn derbyn adroddiadau ar ddiogelu yn eu cyfarfodydd chwarterol rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw’r adroddiadau a welwyd yn addas i’r diben. Nid yw’r materion diogelu ehangach sy’n effeithio ar les disgyblion yn eu bywydau bob dydd yn cael eu hadrodd fel mater o drefn i’r Cyngor Rheoli. Yn ogystal, nid yw adroddiadau ar ddiogelu yn cynnwys gwerthusiad o gymhwyso polisïau penodol fel y polisi ataliaeth gorfforol, polisi ymddygiad disgyblion a’r polisi disgyblu, y polisi triniaeth feddygol a chadarnhad o ddriliau tân a gwacáu adeilad. Nid yw absenoldeb adroddiadau priodol ar ddiogelu yn galluogi’r Cyngor Rheoli i bennu p’un a yw’r

polisïau hyn yn effeithiol, p'un a oes unrhyw batrymau o faterion yn dod i'r amlwg, neu'n hollbwysig, p'un a yw disgyblion yn ddiogel.

Nid oes unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd fod y Cyngor Rheoli yn adolygu adroddiadau diogelu mewn modd cadarn.

Mae adroddiadau ar gŵynion i'r Cyngor Rheoli yn canolbwyntio ar adrodd am gŵynion ffurfiol yn unig. Mae cwynion eraill wedi'u categoreiddio'n anghywir fel rhai 'anffurfiol' pan ddylid fod wedi ymdrin â nhw fel cwynion ffurfiol, naill ai oherwydd natur y gŵyn neu oherwydd i'r gŵyn gael ei gwneud yn ysgrifenedig i gadeirydd y Cyngor Rheoli.

Nid oes 'diwylliant tîm' o ddiogelu, dirprwy swyddog na byrddau seinio mewnol. O ganlyniad, nid yw'r person diogelu dynodedig yn cael ei gefnogi'n effeithiol yn ei waith.

Yn y llawlyfr staff, nid yw rôl y pennaeth wedi'i diffinio'n fanwl, felly nid yw'n eglur i ba raddau y mae'r pennaeth wedi'i eithrio o ganllawiau penodol, a pham ddylai hyn fod, sut y caiff y pennaeth ei ddal yn atebol, ac o ganlyniad, beth all y pennaeth ei wneud a pheidio â'i wneud. Hefyd, mae diffyg eglurder a gwrthdaro posibl yn rolau priodol y person diogelu dynodedig a'r arweinydd diogelu dynodedig.

Er bod strwythurau rheoli llinell yn glir, mewn llawer o agweddau, dim ond y pennaeth all roi caniatâd ar gyfer camau gweithredu penodol neu'u hawdurdodi. Mae hyn yn lleihau awdurdod rheolwyr, ac o bosibl yn eu difreinio rhag cyflawni eu swyddogaethau rheoli llinell arferol.

Er bod y rhan fwyaf o'r staff yn mwynhau gweithio yn Rhuthun, mae'r rheolaeth dros bryderon diweddar wedi effeithio ar forâl staff. Ceir potensial yn hyn i danseilio'r graddau y mae staff yn teimlo'n hyderus i adrodd am faterion yn unol â pholisïau'r ysgol. Er enghraifft, mae staff yn dynodi amharodrwydd i ddefnyddio system gofnodi'r ysgol i adrodd ar faterion diogelu.

Ceir diffyg eglurder ynglŷn â chyfrifoldeb y pennaeth yn ei rôl fel 'gwarcheidwad' ar gyfer disgyblion tramor.

Mae'r adran Iechyd Meddwl yn Llawlyfr Preswylwyr yr ysgol yn mynd yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i naw o nodweddion gwarchodedig. Yn benodol, mae'r datganiadau *"ni chaiff unrhyw breswyliwr sydd ar feddyginiaeth oherwydd materion iechyd meddwl ei dderbyn i Ysgol Rhuthun";* ac *"Os yw unrhyw breswyliwr presennol yn ymweld â Meddyg ac yn cael diagnosis o faterion iechyd meddwl sy'n mynnu ei atgyfeirio at seiciatrydd arbenigol, bydd y preswyliwr yn cael ei anfon adref at ei rieni",* yn awgrymu efallai na fydd yr ysgol yn gwneud addasiad rhesymol.

Nid yw trefniadau i gefnogi ymarfer proffesiynol nyrsys ysgol wedi'u datblygu'n ddigonol gan nad oes ganddynt fynediad at oruchwyliaeth glinigol gan weithiwyr iechyd proffesiynol.

Mae polisi'r ysgol ar feddyginiaeth wedi dyddio ac nid yw'n adlewyrchu arfer dda bresennol yn ddigon da.

Yn gyffredinol, nid yw'r Cyngor Rheoli yn Ysgol Rhuthun yn cyflawni ei ddyletswydd i ddiogelu disgyblion a hyrwyddo lles holl aelodau cymuned yr ysgol. Cefnogir y farn hon gan y gwerthusiadau allweddol canlynol:

- Er bod polisïau a gweithdrefnau addas gan yr ysgol sy'n rhoi ystyriaeth ddyledus i 'Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol o dan Ddeddf Addysg 2002', nid yw'r Cyngor Rheoli wedi sicrhau bod y rhain yn cael eu cymhwyso'n drylwyr.
- Nid oes gweithdrefnau addas gan yr ysgol i sicrhau ansawdd effeithiolrwydd ei threfniadau ar gyfer diogelu disgyblion.
- Nid yw'r Cyngor Rheoli wedi ymgysylltu nac ymgynghori'n ddigon da ynghylch trefniadau diogelu gydag aelodau o gymuned yr ysgol, yn cynnwys staff, disgyblion a rhieni. O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth gadarn gan y Cyngor Rheoli o effeithiolrwydd trefniadau diogelu'r ysgol.
- Nid yw'r Cyngor Rheoli wedi ymgymryd â'i rôl fonitro a herio mewn modd digon cadarn.

## Argymhellion

1. Dylai'r ysgol weithredu trefniadau cadarn ar gyfer adrodd am bryderon diogelu i uwch arweinwyr ac i'r Cyngor Rheoli. Dylai'r adroddiadau hyn fod yn rhai rheolaidd bob mis, a chynnwys dadansoddiad o batrymau gweithgarwch. Er enghraifft, dylai adroddiadau gynnwys pennu sancsiynau, ataliaeth gorfforol, gwaharddiadau, ac atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol neu'r heddlu. Dylai'r adroddiadau hyn gynnwys 'dim gweithgarwch' er mwyn cadarnhau presenoldeb gweithgarwch ai peidio.
2. Dylai cofnodion yr ysgol o gyfarfodydd y Cyngor Rheoli gynnwys adroddiadau manwl, a dylent gofnodi p'un a yw'r aelodau yn derbyn neu'n gwrthod neu'n ymholi ynghylch y manylion ym mhob adroddiad diogelu, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu perthnasol sy'n codi.
3. Dylid adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol er mwyn sicrhau bod arweiniad yn galluogi'r holl staff i reoli'u dyletswyddau, a bod arweinwyr ar bob lefel wedi'u grymuso i reoli'u timau yn effeithiol. Dylad dosbarthu a dirprwyo pwerau yn ehangach felly i gefnogi creu diwylliant o ddiogelu disgyblion ar draws y gymuned ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 1.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- 3(2b) – Diogelu a hybu llesiant y plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, gan gydymffurfio â chylchlythyr 52/95 y Swyddfa Gymreig "Gwarchod Plant rhag Camdrin: Rôl y Gwasanaeth Addysg"; Mae hwn wedi'i ddisodli gan WAGC 005/2008 - Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol o dan Ddeddf Addysg 2002

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch parhau i gofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r ysgol i ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn, a phennu p'un a oes angen ymchwiliad manwl er mwyn cynorthwyo gwelliant.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad â ffocws dirybudd hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2020